Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**
—
Welsh Parliament
**Health, Social Care and Sport Committee**

**Vaughan Gething AS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

7 Hydref 2020

Annwyl Weinidog

Yn ddiweddar, fel Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, yr wyf wedi cael sylwadau sy'n tynnu sylw at nifer o bryderon ynglŷn â gwasanaethau trawma ac orthopedig yng Nghymru.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- yr angen i godi proffil gwasanaethau trawma ar lefel Llywodraeth Cymru a GIG Cymru – y gred yw bod gofal trawma yn cael ei ystyried a'i drin fel blaenoriaeth isel;
- diffyg goruchwyliaeth weithredol ar gyfer gwasanaethau trawma mewn rhai byrddau iechyd;
- amrywiad annerbyniol rhwng ysbytai unigol o ran adnoddau a llwybrau gofal ar gyfer rheoli cleifion trawma;
- diffyg dealltwriaeth o'r gyd-ddibyniaeth rhwng y baich trawma nas cynlluniwyd a'r gwasanaeth dewisol a gynlluniwyd.

Gallai datblygu Strategaeth Gwasanaeth Trawma i Gymru, sydd ar wahân yn llwyr i fentrau rhestrau aros a llawdriniaeth ddewisol, helpu i fynd i'r afael â'r pryderon hyn a rhoi gwasanaethau trawma yn gadarn yn ôl ar yr agenda.

Byddwn yn ddiolchgar pe baech yn ystyried y materion hyn, ac edrychaf ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



Dr Dai Lloyd AS
**Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
0300 200 6565